# Adroddiad Arolygu ar

**Cartref Gofal Bryn Celyn**

**Parc Maesteg**
**Maesteg**
**Caerdydd**
**CF34 9LR**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## 15 Rhagfyr 2021

16/12/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth a geir yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, ar unrhyw ffurf neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Mae'n rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Chartref Gofal Bryn Celyn

| | |
|---|---|
| Math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br>Oedolion â gofal nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Amaya Care Homes (Maesteg) Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 56 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 04/06/2019 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Yn gweithio tuag ato. Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog neu'n arddangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |

## Crynodeb

Mae'r bobl sy'n byw yng Nghartref Gofal Bryn Celyn yn cael gofal a chymorth o safon dda. Mae'r gweithwyr gofal yn trin pobl gyda chynhesrwydd a charedigrwydd, ac maent yn gyfarwydd ag anghenion  pobl, eu dymuniadau, a'u harferion bob dydd. Mae adborth cyson oddi wrth bobl a'u perthnasau yn dangos bod gweithwyr gofal yn wybodus, yn barchus ac yn garedig. Mae mesurau ar waith i gadw pobl yn ddiogel. Mae polisïau a gweithdrefnau cyfredol yn amlinellu canllawiau cenedlaethol cyfredol. Mae gweithwyr gofal yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau diogelu ac yn cael hyfforddiant perthnasol. Mae'r gweithwyr gofal yn teimlo eu bod nhw yn cael y lefel o oruchwyliaeth ac archwilio sydd angen. Mae cynlluniau personol yn nodi anghenion gofal a chymorth pobl. Er bod cynlluniau'n fanwl, mae angen datblygu systemau cofnodi ymhellach i sicrhau bod gwybodaeth briodol yn cael ei nodi. Mae adolygiadau o ddogfennau gofal yn cael eu cynnal yn gyfnodol, ond mae angen gwneud gwelliannau i sicrhau bod y bobl berthnasol yn cael eu cynnwys yn y broses adolygu. Gofelir am bobl mewn amgylchedd dymunol sy'n ddiogel ac sy'n diwallu eu hanghenion.

## Llesiant

Mae'r gwasanaeth yn ystyried amgylchiadau unigol pobl. Cyn iddynt gael eu derbyn i'r cartref, mae asesiad cyn-derbyn yn cael ei wneud i benderfynu a yw'r gwasanaeth yn gallu darparu gofal a chymorth priodol. Wedyn, mae cynlluniau personol yn cael eu llunio sy'n nodi anghenion gofal a chymorth pobl a'r ffordd orau o gynorthwyo pobl i gyflawni eu canlyniadau personol. Mae pobl a'u cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys yn y broses o gynllunio gofal. Fodd bynnag, yn ôl yr hyn a welsom, roedd diffyg tystiolaeth o gynrychiolwyr pobl yn cael eu cynnwys wrth adolygu cynlluniau personol.

Mae pobl yn byw mewn llety sy'n gwella eu bywydau. Mae'r cartref yn cael ei gynnal a'i gadw i safon uchel, ac mae'n gyfforddus ac yn lân. Mae cyfarpar arbenigol ar gael i'r rhai sydd ei angen. Gall pobl wneud dewisiadau o ran eu gofod byw bersonol trwy roi pethau personol ynddo yn ôl eu dymuniad. Rheolir diogelwch amgylcheddol drwy raglen barhaus o waith cynnal a chadw, gwiriadau a gwasanaethu.

Mae systemau ar waith i gadw pobl yn ddiogel. Mae gweithwyr gofal yn cael eu recriwtio a'u fetio, ac mae proses sefydlu ar waith. Mae polisïau a gweithdrefnau yn gyfredol ac yn hyrwyddo arfer diogel. Mae'r gweithwyr gofal yn cael eu hyfforddi i adnabod arwyddion camdriniaeth, esgeulustod a dirywiad ac maent yn gwybod sut i fynegi pryder os oes angen. Mae meddyginiaeth yn cael ei storio'n briodol ac yn cael ei rhoi yn ôl argymhellion y presgripsiynydd. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu mesurau llym i leihau'r risg o groes-heintio.

Cefnogir pobl i gael rheolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Mae'r gweithwyr gofal yn annog pobl i wneud penderfyniadau a chael eu harferion bob dydd eu hunain. Mae'r gweithgareddau sy'n cael eu cynnig yn hyrwyddo llesiant corfforol yn ogystal â chynhwysiant cymdeithasol. Mae gan bobl fynediad da at wasanaethau gofal iechyd ychwanegol, ac mae'r gwasanaeth yn ceisio arweiniad oddi wrth weithwyr gofal iechyd proffesiynol pan fydd angen.

## Gofal a Chymorth

Mae pobl yn hapus gyda'r gofal a chymorth maent yn eu cael. Mae'r gweithwyr gofal yn adnabod y bobl y maent yn eu cefnogi'n dda ac yn gallu rhagweld eu hanghenion. Gwelsom ryngweithiadau cadarnhaol rhwng gweithwyr gofal a'r bobl y maent yn eu cefnogi a gallem weld bod perthynas wirioneddol dda rhyngddynt. Mae'r bobl y gwnaethom siarad â nhw yn hapus gyda'r gwasanaeth ac yn canmol y cymorth y maent yn ei dderbyn. Roedd sylwadau'n cynnwys, *"Rwy'n mwynhau byw yma, maent yn fy nhrin â pharch"* ac *"Rwy'n mwynhau bod yma yn fawr iawn. Rydw i wedi bod yma ers tua blwyddyn. Mae'r bwyd yn hyfryd ac mae gennym ddewis da. "*Gwnaethom siarad â nifer o berthnasau pobl, y gwnaethant ddarparu adborth cadarnhaol inni ar safon y gofal a gyflenwir gan y gwasanaeth. Dywedodd un berthynas, *"Mae ansawdd y gofal yn rhagorol, does gen i ddim byd i gwyno amdano. Mae'r staff yn mynd y filltir ychwanegol bob tro."* Mae gweithgareddau ar gael i'r rhai sydd am gymryd rhan ynddynt. Gwelsom amserlen wythnosol a oedd yn cynnwys ystod o weithgareddau i bobl eu mwynhau. Gwelsom dystiolaeth ddogfennol, gan gynnwys ffotograffau a chofnodion cynnydd ysgrifenedig, o gyfranogiad pobl yn y gweithgareddau. Ar ddiwrnod ein harolygiad, roedd y bobl yn mwynhau parti Nadolig lle roedd canwr yn perfformio iddynt.

Nodir anghenion gofal a chymorth pobl yn eu cynlluniau personol. Gwnaethom edrych ar nifer o gynlluniau personol a gweld bod y gwasanaeth yn cymryd amser i asesu anghenion pobl cyn iddynt gael eu derbyn i'r cartref er mwyn sicrhau bod y cartref yn gallu darparu'r gofal a chymorth sydd eu hangen. Yn dilyn hyn, mae cynlluniau ac asesiadau risg yn cael eu datblygu. Mae cynlluniau personol yn cynnwys canllawiau clir i weithwyr gofal eu dilyn ynglŷn â darparu gofal. Fodd bynnag, gwelsom fod cofnodion dyddiol yn canolbwyntio ar dasgau ac nad oeddent yn nodi meysydd fel llesiant emosiynol yr unigolyn. Gwnaethom drafod hyn gyda'r tîm rheoli, a ddywedodd wrthym eu bod nhw wedi nodi'r mater hwn hefyd ac wedi'i gynnwys yng nghynllun gweithredu'r gwasanaeth. Mae cynlluniau personol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Fodd bynnag, ychydig o dystiolaeth a welsom fod pobl a'u cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys yn y broses adolygu. Dywedodd y tîm rheoli wrthym eu bod nhw'n ymwybodol o'r mater hwn ac yn gweithio i'w ateb. Mae hwn yn faes i'w wella a disgwyliwn y bydd y darparwr wedi cymryd camau gweithredu cyn inni arolygu'r gwasanaeth nesaf. Mae cynlluniau personol pobl yn cynnwys gohebiaeth feddygol a thystiolaeth ddogfennol o ymweliadau ac apwyntiadau gydag amrywiaeth o weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol, gan gynnwys gweithwyr cymdeithasol, meddygon teulu a nyrsys cymunedol. Mae hyn yn dangos bod gan bobl fynediad da at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ychwanegol. Mae offer fel siartiau bwyd a hylif a siartiau cofnodi pwysau yn sicrhau bod iechyd cyffredinol pobl yn cael ei fonitro.

Mae mesurau ar waith i ddiogelu pobl rhag niwed. Mae polisïau a gweithdrefnau yn sylfaen i arferion diogel ac mae'r gweithwyr gofal wedi cael eu hyfforddi i ddiwallu anghenion y bobl y maent yn eu cynorthwyo. Mae meddyginiaeth yn cael ei storio'n

ddiogel a'i rhoi fel y rhagnodir. Gwnaethom archwilio nifer o siartiau cofnodi meddyginiaeth a chanfod nad oedd achosion o roi meddyginiaeth yn ôl yr angen yn cael eu dogfennu’n gywir ar bob adeg. Gwnaethom dynnu sylw’r rheolwyr at hyn, a ddywedodd wrthym eu bod wedi nodi'r mater drwy archwiliadau meddyginiaeth ac yn gweithio i ddod o hyd i ateb.

## Yr Amgylchedd

Mae'r amgylchedd yn cynorthwyo pobl i gyflawni eu llesiant. Mae dau lawr i'r gwasanaeth. Mae'r llawr uchaf yn rhoi llety i'r gymuned nyrsio ac mae’r bobl y mae arnynt angen gofal preswyl yn byw ar y llawr isaf. Gall y cartref ddarparu llety ar gyfer cyfanswm o 56 o bobl. Mae ystafelloedd pobl yn cynnwys pethau personol ac eitemau sydd o bwys iddynt, fel ffotograffau ac addurniadau. Mae cyfleusterau ystafell ymolchi en suite ymhob ystafell wely. Hefyd, mae nifer o ystafelloedd ymolchi ac ystafelloedd cawod cymunol ym mhob rhan o’r cartref sy’n cynnwys cyfarpar arbenigol ar gyfer y rhai sydd ei angen. Mae nifer o ardaloedd cymunol ac mae’r rhain yn lân ac wedi eu dodrefnu a'u haddurno'n briodol. Ar ddiwrnod ein harolygiad, gwelsom fod pobl yn ymddangos yn ymlaciol yn yr ardaloedd cymunol, sy’n awgrymu eu bod yn hapus gyda'r amgylchedd. Mae gan y gegin sgôr hylendid bwyd o 5 a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Mae hyn yn golygu bod safonau glendid a hylendid yn dda iawn. Cyflogir gweithwyr domestig sy’n dilyn amserlen lanhau drwyadl er mwyn sicrhau safonau hylendid da. Mae staff ac ymwelwyr i'r gwasanaeth yn cael eu profi fel mater o drefn am COVID-19 ac maent hefyd yn defnyddio'r lefelau gofynnol o gyfarpar diogelu personol. Mae'r mesurau hyn ar waith er mwyn lleihau'r risg o achosion o'r feirws yn y gwasanaeth. Mae ardaloedd cyfyngedig ar glo a cheir mynediad iddynt gan bersonél awdurdodedig yn unig. Mae lle digonol ar gyfer storio ac mae sylweddau peryglus i iechyd yn cael eu storio'n ddiogel. Mae gardd yng nghefn yr adeilad yn darparu ardal sy’n gallu cael ei defnyddio ar gyfer gweithgareddau neu ymlacio. Ni wnaethom nodi unrhyw beryglon yn ystod ein harolygiad.

Mae'r gwasanaeth wedi ymrwymo i sicrhau arferion diogel. Mae gwiriadau, gwasanaethau a gwaith cynnal a chadw rheolaidd yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ar gyfer y bobl sy’n byw yno. Gwnaethom archwilio cofnodion diogelwch amgylcheddol a gweld bod pobl â chymwysterau addas yn monitro'r cyfleustodau, cyfarpar a nodweddion diogelwch tân yn rheolaidd. Cyflogir gweithiwr cynnal a chadw i ymdrin ag unrhyw atgyweiriadau bach sydd eu hangen ac i drefnu contractau allanol.  Mae gan bawb sy’n byw yn y cartref broffil personol gadael mewn argyfwng ar waith. Mae hwn yn ddogfen sy’n darparu gwybodaeth ar y ffordd orau o alluogi’r unigolyn i adael yr adeilad os bydd argyfwng.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r rheolwyr yn goruchwylio’r gwaith o ddarparu hyfforddiant a goruchwyliaeth ar gyfer y gweithwyr gofal. Dywedodd y gweithwyr gofal y gwnaethom siarad â nhw wrthym fod yr hyfforddiant maent yn ei gael o safon dda ac yn rhoi’r sgiliau a gwybodaeth hanfodol iddynt. Gwnaethom edrych ar ystadegau hyfforddiant y gwasanaeth a gweld bod y gwasanaeth yn cydymffurfio ar y cyfan â'i ofynion hyfforddiant craidd. Mae goruchwyliaeth ac arfarniadau yn caniatáu gweithwyr gofal i drafod unrhyw broblemau neu bryderon gyda'u goruchwylydd ac i fonitro eu perfformiad cyffredinol. Mae cofnodion yn ymwneud â goruchwyliaeth ac arfarniadau yn dangos bod y gwasanaeth yn darparu lefel dda o gymorth ffurfiol ar gyfer ei weithwyr. Dywedodd gweithwyr gofal wrthym eu bod nhw’n teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cynorthwyo yn eu rolau. Mae'r sylwadau’n cynnwys: *“Rwyf wedi gweithio yn y gwasanaeth ers 19 mlynedd. Rwy'n mwynhau gweithio yma”* ac *“Mae'r rheolwr yn gefnogol iawn, ac ar gael ar unrhyw bryd os oes gen i gwestiynau.”*

Mae proses recriwtio ddiogel yn sicrhau bod gweithwyr gofal yn addas i weithio gyda phobl sy’n agored i niwed. Gwnaethom gymryd sampl o gofnodion personél a gweld bod y gwasanaeth wedi cynnal yr holl wiriadau sy’n ofynnol cyn cyflogi rhywun, gan gynnwys gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, hanes cyflogaeth, a geirdaon oddi wrth gyflogwyr blaenorol. Rhaid i bob gweithiwr newydd gwblhau proses sefydlu ar ôl cael ei benodi.

Mae gwybodaeth ysgrifenedig sy’n amlygu nodau, gwerthoedd a darpariaeth y gwasanaeth yn cael ei nodi yn y datganiad o ddiben. Gwnaethom archwilio'r ddogfen hon a gweld bod gwasanaethau’n cael eu darparu un unol â hi. Mae canllaw ysgrifenedig sy’n cynnwys gwybodaeth ymarferol ynglŷn â'r cartref a'r cymorth a ddarperir ar gael i bobl ei weld hefyd. Nid oedd y ddogfen yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud ag argaeledd gwasanaethau eirioli. Gwnaethom drafod hyn gyda'r rheolwyr, a gytunodd i ychwanegu'r wybodaeth angenrheidiol.

Mae mesurau llywodraethu a sicrhau ansawdd yn galluogi'r gwasanaeth i fyfyrio a datblygu. Mae gwybodaeth ysgrifenedig yn dangos bod yr unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd ac yn ymgysylltu â phobl sy’n gysylltiedig â'r gwasanaeth, gan gynnwys staff, pobl a'u cynrychiolwyr, er mwyn casglu adborth ar ddarpariaeth y gwasanaeth. Mae hyn yn helpu'r gwasanaeth i hunanwerthuso a nodi meysydd i’w gwella. Mae'r unigolyn cyfrifol hefyd yn dadansoddi gwybodaeth sy’n ymwneud â chynnal y gwasanaeth o ddydd i ddydd, gan gynnwys hyfforddiant staff a lefelau staffio. Mae adroddiad ar ansawdd y gofal yn cael ei gyhoeddi bob chwe mis. Mae'r adroddiad hwn yn amlygu'r hyn mae'r gwasanaeth yn ei wneud yn dda ac unrhyw feysydd i’w gwella. Mae'r rheolwr hefyd yn cwblhau cynllun gweithredu misol sy’n nodi meysydd i’w datblygu.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

**Dyddiad cyhoeddi** 26/01/2022